# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA625 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2015

## Gweithdrefn:

Negyddol

## Y cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (O.S. 1992/3238) ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) ("Deddf 1988"), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r rheolau hynny ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2016, neu ar ôl hynny, drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (Ffigurau'r Boblogaeth Oedolion).

## Materion technegol: craffu

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 21.1 (x) - oedi na ellir ei gyfiawnhau wrth osod gerbron y Cynulliad.

Gwnaethpwyd yr offeryn hwn ar 11 Tachwedd 2015; ni chafodd ei osod tan 30 Tachwedd 2015.

## Craffu: Rhinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**06 Ionawr 2016**